

CYNGOR CYMUNED LLANDYSUL COMMUNITY COUNCIL

Cofnodion Cyfarfod Misol Cyngor Cymuned Llandysul Community Council a gynhaliwyd yng Nghanolfan Ieuenctid Tysul Youth Centre, Llandysul, ar 14eg Rhagfyr 2015

Minutes of Monthly Meeting of Cyngor Cymuned Llandysul Community Council held at Canolfan Ieuenctid Tysul Youth Centre, Llandysul, on 14th December 2015

Yn Bresennol/Present:

Cyng/Cllrs Keith Evans, Tom Cowcher, Douglas Davies, Roy Davies, Wyn Evans, Terry Griffiths, Aled Jones Gethin Jones, Carolyn Reed-Rees, Abby Reid, Beth Davies (cyrraedd am 21.05 / arrived at 21.05)

1 **Ymweliad/Visit** – Gwobr y Gymuned / Community Award

Cyflwynwyd Gwobr y Gymuned ar gyfer 2015 gan y Cadeirydd i gyn aelod o'r Cyngor Cymuned, Mrs Philippa Davies, am ei holl waith yn y Gymuned ac am ei gwaith caled a'i hymroddiad tuag at y Ganolfan Deuluoedd dros y blynyddoedd yn arbennig. Mae Philippa yn aelod gweithgar o'i heglwys leol yn Nhalgarreg hefyd.

Diolchodd Philippa i'r aelodau a mynegodd ei diolch am yr anrhydedd o gael y wobr.

The Community Award for 2015 was presented by the Chair to a former member of the Community Council Mrs Philippa Davies for all her work in the Community, particularly her hard work and all embracing dedication with the Family Centre over the years. Philippa is also an active member of her local church in Talgarreg.

Philippa thanked the members and expressed her gratitude at the honour of receiving the award.

Roedd PCSO Siân Davies yn bresennol yn y cyfarfod er mwyn adrodd am y digwyddiadau a welwyd yn Llandysul a'r cyffiniau dros y mis diwethaf.

Nid oedd unrhyw ddigwyddiadau mawr i adrodd amdanynt, ac eithrio un lladrad yn Rhydlewis.

Diolchodd y Cadeirydd i PCSO Siân Davies am ei phresenoldeb ac am ei hymroddiad gwych tuag at sicrhau bod ein Cymuned yn lle mwy diogel.

PCSO Sian Davies was present at the meeting reporting on recent incidents in and around Llandysul over the past month.

There were no major incidents to report apart from one theft incident in Rhydlewis.

The Chairman thanked PCSO Sian Davies for her attendance and excellent dedication to making our Community a safer place.

Adroddiad y Cadeirydd / Chairman's Report

Adroddodd y Cadeirydd y bu farw mam-yng-nghyfraith Cyng Aled Jones yn ddiweddar, ac estynnwyd cydymdeimlad y Cyngor i'r teulu.

The Chairman reported that Cllr Aled Jones mother in law had recently past away and the Councils condolences were extended to the family.

Roedd y Cadeirydd wedi cynrychioli'r Cyngor Cymuned yn y digwyddiadau canlynol yn ystod y mis diwethaf:-

The Chairman had represented the Community Council at the following events in the past month:-

8/11/15 – Mynychu Gwasanaeth Sul y Cofio yn Eglwys Llandysul, lle y gwnaeth osod torch a gwneud darlleniad.

14/11/15 – Barnu cystadleuaeth y ffenestr siop orau ar gyfer y Nadolig gyda'r Ficer a'i wraig. Aeth ymlaen i ganmol y busnesau lleol am eu gwaith caled. Cyflwynwyd y wobwr am y ffenestr orau i Farbwr Llandysul yn ystod y ffair Nadolig lwyddiannus a drefnwyd gan Llandysul Pontweli Ymlaen.

25/11/15 – Roedd Cynghorwyr Keith a Wyn Evans wedi mynychu Pwyllgor Cydlyn Trosolwg a Chraffu y Cyngor a gynhaliwyd yn Ysgol Dyffryn Teifi, lle y craffwyd prosiect Ysgol 3-19 Bro Teifi. Mynegwyd pwyntiau niferus, ac maent yn disgwyl cael ymateb i'r rhain maes o law.

28/11/15 – Roedd pawb wedi mwynhau ein Cinio Nadolig Blynyddol, a soniodd y Cadeirydd ei fod wedi bod yn braf cael y cyfle i rannu'r noson gyda'n siaradwyr gwadd, yr oeddent oll yn Sgowtiaid Archwilio yn Llandysul, a buont yn sôn am eu hymweliad i Jamborî y Byd a gynhaliwyd yn Japan yn ddiweddar, yr oedd y Cyngor Cymuned wedi rhoi cymorth ariannol ar gyfer y daith.

30/11/15 – Wedi mynychu cyfarfod Cyhoeddus ynghylch y cam posibl o gau Llyfrgell Llandysul.

8/11/15 – Attended Remembrance Sunday Llandysul Church, where he laid a wreath and gave a reading.

14/11/15 – Judging the best dressed Christmas themed window along with the Vicar and wife. He praised the local businesses for all their hard work. The award for the best window was presented to Barbwr Llandysul at the successfully run Llandysul Pontweli Ymlaen Christmas fair.

25/11/15 – Cllrs Keith and Wyn Evans attended the Council's Overview & Scrutiny Co-ordination Committee at Ysgol Dyffryn Teifi School where the 3- 19 Ysgol Bro Teifi project was scrutinized. Numerous points were raised to which they are expecting a response in due course.

28/11/15 – Our Annual Christmas Dinner was enjoyed by all, the Chairman expressed how nice it was to share the evening with our guest speakers all of whom were Explorer Scouts at Llandysul and where we heard all about their recent World Jamboree visit to Japan and which had received financial support from the Community Council.

30/11/15 – Attended Public meeting with regards to the proposed closure of Llandysul Library.

Soniodd y Cadeirydd am gyflawniad Heulyn Thomas yn ddiweddar, a fu'n aelod o dîm o dri a wnaeth ennill cystadleuaeth Fferm Ffactor S4C ar y teledu yn ddiweddar. Gofynnwyd i'r clerwr ysgrifennu at Heulyn Thomas yn estyn llongyfarchiadau y Cyngor iddo am ei gyflawniadau.

The Chairman reported on the recent achievement of Heulyn Thomas being part of a team of three which had recently won the S4C televised Fferm Factor competition. The clerk was requested to write to Heulyn Thomas extending the Councils congratulations for his achievements.

1 **Ymddiheuriadau/Apologies:** Cafwyd ymddiheuriadau wrth Cyng Eileen Curry, Andrew Howell a Chynghorwyr Sir Peter Davies a Peter Evans. Roedd Cyng Beth Davies wedi ymddiheuro ymlaen llaw na fyddai modd iddi fod yn bresennol ar ddechrau'r cyfarfod. /Apologies was received from Cllrs Eileen Curry, Andrew Howell and County Councillors Peter Davies and Peter Evans. Cllr Beth Davies had apologised in advance for her inability to be present for the opening of business.

2 **Datgelu Buddiannau/Declarations of Interest:** Datgelwyd budd gan Gynghorwyr Tom Cowcher a Keith Evans mewn perthynas â'r cais am gyllid gan Llandysul Pont Tyweli Ymlaen. / There were declarations of interest from Cllrs Tom Cowcher and Keith Evans with regards to the funding applicaiton from Llandysul Pont Tyweli Ymlaen.

- 3 **Cofnodion/Minutes:** Derbyniwyd bod cofnodion y cyfarfod misol a gynhaliwyd ar 09 Tachwedd 2015 yn gywir ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd. /Minutes of monthly meeting held on 09th November 2015 were accepted as correct and signed by the Chair.

Materion yn Codi:-

Goleuadau Nadolig Gan bod materion yn bodoli ynghylch rhai o'r goleuadau Nadolig, penderfynwyd y dylid cynnwys y mater ar Agenda cyfarfod mis Chwefror, er mwyn ystyried yr hyn y byddai modd ei wneud i wella'r sefyllfa yn barod erbyn y Nadolig nesaf.

Gwobr y Gymuned – Penderfynwyd cynnwys y mater uchod ar Agenda cyfarfod mis Chwefror, er mwyn adolygu rheolau'r cynllun. Bydd y Clerc yn anfon copiâu electronig o'r cynllun ymlaen at bawb cyn y cyfarfod.

Ailgylchu Eitemau Trydanol Bach – Roedd y clerc wedi cael e-bost gan y Cyngor Sir yn gofyn am ddyddiadau er mwyn cynnal y digwyddiad. Penderfynwyd ysgrifennu yn ôl gan ofyn a fyddai modd iddynt ystyried y dyddiadau canlynol, 23/01/16 neu 25/01/16, neu unrhyw ddyddiadau eraill ar ddiwedd mis Ionawr. Byddai'r digwyddiad yn cael ei gynnal yn y prif faes parcio yn Llandysul.

Materion y mae Angen Gwneud Penderfyniad yn eu Cylch

4) Ceisiadau Ariannol:-

Penwythnos Garddio – gofynnodd Llandysul a Pont Tyweli Ymlaen am gyfraniad o £1000 er mwyn cynorthwyo i dalu'r costau o redeg y penwythnos garddio. Yn dilyn trafodaeth hir, penderfynwyd rhoi £750 iddynt.

5) **Materion i'w trafod**

Parc Coffa/Lle chwarae i blant – Roedd Cyng Keith Evans wedi cael dyfynbris o £1500 ar gyfer y plac gan saer maen yn Sanclêr, ond byddai'n cael dyfynbris arall gan saer maen yn Llanybydder. Yn ogystal, byddai'n siarad gydag adeiladwyr ynghylch ymestyn wal lle y byddai'r garreg goffa yn cael ei gosod, erbyn y cyfarfod nesaf.

Lle Chwarae i Blant

Diolchodd y Cadeirydd i Gynghorwyr Abby Reid ac Andrew Howell am archwilio'r offer chwarae bob mis. Nododd Cyng Abby Reid hefyd y

Matters Arising:-

Christmas Lights It was decided as there were issues regarding some of the Christmas lighting scheme that the matter be placed on February's Agenda to explore what can be done to remedy the position in advance of next Christmas.

Community Award – It was decided to put the above matter on the February Agenda to review the scheme rules. Clerk to forward electronic copies of the scheme in advance of the meeting.

Recycling Small Electrical Items – The clerk had received an email from the County Council asking for dates to hold the event. It was decided to write back asking that consideration be given to the following dates 23/01/16 or 25/01/16 or any other dates at the end of January. The event would be held in the main Llandysul car park.

Matters Requiring Decisions

4) **Funding Applications:-**

Gardening Weekend – Llandysul and Pont Tyweli Ymlaen requested a contribution of £1000 to assist with the running costs of the gardening weekend. Following a lengthy discussion it was decided to award them £750.

5) **Matters for discussion**

Memorial Park/Childrens play area – Cllr Keith Evans had received a quotation for the plaque for £1500 from a St Clears Monumental Mason, but he would be seeking another quotation from a mason in Llanybydder. He would also speak to builders with regards to extending a wall where the monument would be mounted by the next meeting.

Children's Play area

The Chairman thanked Cllrs Abby Reid and Andrew Howell for inspecting the play equipment on a monthly basis. Cllr Abby Reid also advised that she would be putting up a poster with the clerks contact details on them to put in the park.

The Chairman advised that he would produce a

byddai hi'n gosod poster yn y parc a fyddai'n nodi manylion cyswllt y clerc.

Nododd y Cadeirydd y byddai'n paratoi manyleb ddrafft ynghylch cynnal a chadw y tir, er mwyn i'r Cyngor ei hystyried cyn cytuno gyda chontractwr ar gyfer y cyfnod torri nesaf. Nid oedd y Cyngor wedi clywed mwy wrth Wilmot Dixon ynghylch y gwaith arfaethedig dan y ddarpariaeth Budd i'r Gymuned.

Materion Wardiau

Papur Triawd y Cardi – Nododd Cyng Tom Cowcher y byddai unrhyw eitemau newyddion o wardiau Capel Dewi, Tre-groes a Phont-siân yn cael eu croesawu ar gyfer rhifyn nesaf eu cylchlythyr.

Ysgol Bro Teifi – Roedd Cyng Gethin Jones wedi mynychu cyfarfod o'r llywodraethwyr ar gyfer yr ysgol newydd. Codwyd sawl mater, gan gynnwys y cwestiwn ynghylch ble y dylid lleoli plac coffa a leolir yn Ysgol Dyffryn Teifi ar hyn o bryd. Penderfynwyd y dylid gosod y plac yn yr ysgol newydd. Amlygwyd mater yr ardd goffa hefyd, yn ogystal â chloch yr ysgol.

Ffyrdd Mwdlyd – Adroddodd Cyng Douglas Davies bod y ffordd yng Nghapel Dewi yn llawn mwd yn dilyn yr holl law a fu. Penderfynwyd y dylai'r clerc gysylltu â'r Cyngor Sir. Yn ogystal, adroddwyd bod y ffordd rhwng Maesymeillion a Phren-gwyn yn dioddef llifogydd oherwydd y ffaith bod y draeniau wedi blocio.

Rhiw Seion Penderfynwyd y dylai'r clerc ysgrifennu at Gyngor Sir Ceredigion i gwyno am hyd y cyfnod y bu'r goleuadau ar y rhiw.

Gŵyl Gerdded – Adroddodd Cyng Tom Cowcher y byddai gŵyl gerdded yn cael ei chynnal yn Llandysul. Y nod yw anfon pobl ar yr 8 llwybr a gofyn iddynt i adrodd yn ôl am unrhyw broblemau erbyn 25 Ionawr 2016. A fyddai modd i bobl fynychu.

Llyfrgell Llandysul – Mewn dogfen ymgynghori, mae Cyngor Sir Ceredigion wedi cyhoeddi'r posibilrwydd o gau y Llyfrgell yn Llandysul. Penderfynwyd y dylai'r clerc ysgrifennu at y Cyngor Sir oherwydd y byddai hon yn drychineb arall i Landysul, gan nodi bod

draft ground maintenance specification for consideration by Council in advance of entering into an agreement with a contractor for the next cutting period.

Nothing further had been heard from Wilmot Dixon with regards to the proposed works for Community Benefit.

Ward Matters

Papur Triawd y Cardi – Cllr Tom Cowcher requested that any items of news from Capel Dewi, Tregroes and Pontsian wards would be welcomed for the next edition of their newsletter.

Ysgol Bro Teifi – Cllr Gethin Jones had been to a governors meeting of the new school. Various matters had arisen but the matter of where to locate a remembrance plaque that was currently at Ysgol Dyffryn Teifi. It was decided that the plaque should be placed at the new school. The matter of the remembrance garden was also highlighted as well as the school bell.

Muddy Roads - Cllr Douglas Davies reported that the road in Capel Dewi was full of mud following all the rain that we'd been having. It was decided that the clerk contact the County Council.

It was also reported that the road between Maesymeillion and Prengwyn was also prone to flooding because of the blocked drains.

Seion Hill It was decided that the clerk write to Ceredigion County Council complaining about the timescale that the lights had been on the hill.

Walking Festival – Cllr Tom Cowcher reported that there would be a walking festival in Llandysul. The aim is to send people on the 8 walks and to report back on any problems by 25 January 2016. Could people please attend.

Llandysul Library – Ceredigion County Council have announced in a consultation document the possibility of closing the Library in Llandysul. It was decided that the clerk write to the County Council as this would be another disaster for Llandysul stating that there was strong feelings in the community that they are terrorising our town and that Llandysul is being victimised. It was further resolved to

teimpladau cryf yn y gymuned eu bod yn brawychu ein tref a'u bod yn gwneud cam â Llandysul. Gwnaethpwyd penderfyniad pellach i ofyn a fyddai modd i'r Arweinydd a'r Prif Weithredwr fynychu ein cyfarfod nesaf.

Trawslink Cymru Roedd grŵp ymgynghori a chymorth Trawslink Cymru wedi cyfarfod. Roedd pawb yn cytuno bod cryn dipyn o botensial i'r gwaith o ailagor y rheilffordd o Gaerfyrddin i Aberystwyth. Awgrymodd Cyng Tom Cowcher y dylai'r Cyngor Cymuned roi £15 er mwyn talu'r ffi o logi'r ystafell yn Neuadd Tysul ar gyfer y cyfarfod. Roedd pawb yn cytuno.

6) Cydnabod derbyn rhodd

Roedd y sefydliad canlynol wedi anfon eu hanfonebau er mwyn cefnogi'r ceisiadau am grant a wnaethpwyd yn flaenorol, ac awdurdodwyd y dylid eu talu

Ffair Nadolig - £600 - 12/1015

Gohebiaeth

Negeseuon e-bost – Cyflwynwyd rhestr o'r holl negeseuon e-bost a anfonwyd at y clerch ac a anfonwyd ymlaen at yr aelodau rhwng 9 Tachwedd ac 13 Rhagfyr 2015.

Cafwyd y canlynol gan

Geredigion:- Cau'r ffordd dros dro – B4459 – Capel Dewi.

Cafwyd Aseiad Strategol Trosedd ac Anrhefn Ceredigion. Penderfynwyd y dylai'r clerch anfon y ddolen at yr holl aelodau, ac y dylent anfon eu hatebion / sylwadau ymlaen i'r clerch.

Cafwyd gwyriad Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 – Llwybr 67/67 Ystad y Ffawydd,

Llandysul ac fe'i cefnogwyd gan yr Aelodau.

Anfonwyd ymgynghoriad ynghylch Trawsnewid Busnes ymlaen at yr holl aelodau ar 25/11/15.

Penderfynwyd y dylai'r holl aelodau ddarllen yr adroddiad, gan ymateb gyda'u sylwadau er mwyn i'r clerch ateb.

ULIC/SLCC/ Clerks and Councils Direct –

Cafwyd cais i adnewyddu aelodaeth SLCC a phenderfynwyd ei adnewyddu.

request the attendance of the Leader and Chief Executive to our next meeting.

Trawslink Cymru The Trawslink Cymru consultation and support group had met. All were in agreement that there is a great deal of potential for the reinstating of the railway from Carmarthen to Aberystwyth. Cllr Tom Cowcher suggested that the Community Council donate £15 as that was the fee for the room hire at Tysul Hall for the meeting. This was agreed by all.

6) Acknowledge receipt of donation

The following organisation sent in their supporting invoices for previously agreed grant applications and were authorised for payment

Christmas Fair - £600 - 12/1015

Correspondence

Emails – A list of all the emails sent to the clerk and forwarded to members from 9th November – 13 December 2015 was tabled.

The following **were** received from

Ceredigion:- Temporary road closure – B4459 – Capel Dewi.

Ceredigion Crime & Disorder Strategic Assessment was received. It was decided that the clerk send the link to all members and that they forward their replies /comments to the clerk.

Town and County Planning Act 1990- Footpath 67/67 The Beeches Estate, Llandysul diversion was received and supported by Members.

Consultation on Business Transformation had been forwarded to all members on 25/11/15. It was decided that all members read the report and respond with their comments in order for the clerk to reply.

OVW/SLCC/ Clerks and Councils Direct –

Renewal of membership for the SLCC was received and it was decided to renew.

Mid Wales Fire and Rescue – Draft annual improvement plan for 2016/17 was received.

Dyfed Powys Police Commissioner – A letter requesting help towards setting the 2016-17

Tân ac Achub Canolbarth Cymru – Cafwyd Cynllun gwella blynyddol drafft ar gyfer 2016/17.

Comisiynydd Heddlu Dyfed Powys– Cafwyd llythyr yn gofyn am help er mwyn pennu praesept plismona Treth Gyngor 2016-17 a phenderfynwyd anfon y ddolen ymlaen at yr holl aelodau.

Ambiwlans Awyr Cymru– Cafwyd cais am gyfraniad. Penderfynwyd y dylai'r clerc anfon ffurflen gais atynt.

7 Cynllunio: Cafwyd hysbysiad o Gyfarfod y Pwyllgor Rheoli Datblygu a gynhaliwyd ar 09.12.15.

Archwiliwyd y cynlluniau canlynol fel rhan o'r broses ymgynghori, ac ni wnaethpwyd unrhyw wrthwynebiadau:-

A150894 – Hendre Pont-siân – Gosod llwybr cerrig mathredig

8) Gwybodaeth Ariannol

Anfonebau:-

(i) Llinos Jones – Cafwyd anfoneb am y gwasanaeth cyfieithu ym mis Hydref a Thachwedd 2015 a derbyniwyd y dylid ei thalu.

(ii) Abacus Cleaning– Cafwyd anfoneb am y swm o £213.75 am lanhau 9 lloches bws.

(iii) Meredith Williams – Cafwyd anfoneb am y swm o £540 am gynnal a chadw a thorri prysgwydd yn ystod tymor yr haf 2015.

(iv) Ieuentid Tysul – Cafwyd anfoneb am y swm o £325 am logi'r Ganolfan Ieuentid ar gyfer Cyfarfodydd y Cyngor Cymuned.

Penderfynwyd y dylid cynnal cyfarfod nesaf y Cyngor yn Ffestri Carmel Pren-gwyn er mwyn i'r Cynghorwyr allu gweld canlyniad eu cyfraniad Ariannol tuag at y cynllun.

Council Tax policing precept was received it was decided to forward the link to all members.

Wales Air Ambulance – A request for a donation was received. It was decided that the clerk send them an application form.

7 Planning: Notice of the Development Control Committee Meeting to be held on 09.12.15 was received.

The following plans were inspected as part of the consultation process with no objections:-
A150894 – Hendre Pontsian – Installation of a crushed stone track

8) Financial Information

Invoices:-

(i) Llinos Jones – Invoice for October and November 2015 translation was received and passed for payment.

(ii) Abacus Cleaning– Invoice was received for £213.75 for cleaning of 9 bus shelters.

(iii) Meredith Williams – Invoice received for maintenance and brushcutting over the 2015 summer season for £540.

(iv) Tysul Youth – An invoice for £325 was received for hiring the Youth Centre for Community Council Meetings.

It was resolved that the next scheduled meeting of the Council be held at Carmel Vestry Prengwyn in order for Councillors to see first hand the outcome of their Financial contribution to the scheme.

